



Croeso i'n Cylchlythyr ar gyfer y Gwanwyn. Mae'n destun llawenydd gallu datgan yn falch yr adeg hon o'r flwyddyn fod Crist yn fyw ac wedi atgyfodi. Mae Cytûn yn llawenhau gyda'r eglwysi ac enwadau sy'n aelodau yn ystod gŵyl Gristnogol flaenaf y Pasg. Bendith Duw arnoch chi i gyd ar yr adeg arbennig hon yn y calendr Cristnogol.

Mae cymaint o'm gwaith fel Prif Weithredwr wedi canolbwyntio ar dystiolaethu i'r ffydd Gristnogol yn lleol. Ers y Nadolig cefais y fraint o siarad mewn nifer o gyfarfodydd a gwasanaethau eglwysig ledled Cymru: yng Ngwaelod y Garth, Caerdydd, Rhuthun, Abertawe, Dinas Powys, Efail Isaf, Penrhiwceibr, Pendaulwyn, Penarth, Pont-y-clun a Blaenau Ffestiniog. Mae fy nghydweithwyr Geraint Hopkins a Rhian Linecar hefyd wedi teithio'n helaeth yn trafod eu gwaith ym meysydd yr eglwys a chymdeithas, a ffydd a threfn.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd: yn Bow Street ac yn Yr Amwythig er mwyn hyrwyddo gwaith Roots trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, yng Nghaerdydd i gefnogi grŵp lleol y gweinidogion sydd wedi ymddeol ac yn nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust, yn Llancarfan ym maes datblygu gweinidogaeth eciwmenaidd ym Mae Caerdydd ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda gwaith Cynllunio Argyfwng/Cydnerthu. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda Heddlu De Cymru ynghylch ymgysylltu â'r gymuned.

Yr Eglwys a Chymdeithas

Yn yr arena gyhoeddus, mae Geraint Hopkins wedi ysgrifennu cyfres helaeth o nodiadau ynghylch gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd cefnogodd Cytûn waith yn ymwneud â'r pecyn ariannu £2 filiwn a roddwyd i gefnogi plant ac oedolion gydag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig (ASD). Mae Geraint wedi cynorthwyo nifer o eglwysi wrth estyn eu cefnogaeth ar gyfer Maniffesto o werthoedd ar y cyd ar gyfer etholiadau mis Mai.

Mewn Proffil – Gwaith Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn



Mae Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn yn gweithredu'n eang, yn fywiog ac yn effeithiol. Yn ystod cyfarfod y Rhwydwaith ym mis Ebrill tynnodd Paul Carpenter sylw at waith Christian Solidarity Worldwide. Cafodd aelodau'r Rhwydwaith eu hatgoffa'n effeithiol iawn bod Cristnogion yn cael eu herlid mewn nifer o wledydd. Mae ffoaduriaid Cristnogol o wledydd fel Pakistan ac Eritrea yn enghreifftiau byw o'r ffordd y mae'r Eglwys a erlidiwyd wedi ceisio noddfa yng Nghymru. Cytunwyd y dylai aelodau'r Rhwydwaith ofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog newydd dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau mis Mai. Dylai'r cyfarfod dynnu sylw at yr anesmwythyd bod y

DU ar hyn o bryd yn dychwelyd nifer o Gristnogion i wledydd ble mae pryder y gallant gael eu herlid.

Mynegwyd pryder ynghylch y ffordd y mae plant y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu trin gan awdurdodau ffiniau a mewnfudo'r DU. Yn arbennig roedd yna gred y dylai ceiswyr lloches a gludwyd i'r DU fel plant ar eu pen eu hunain gael gorffen eu haddysg. Daeth achos adnabyddus Daniyal Shahzad o Gaerfyrddin i gof. Mae Cytûn wedi aros mewn cysylltiad gyda rhieni maeth Daniyal ac wedi cyflwyno achos plant sydd wedi'u hanfon neu eu masnachu i'r DU at ddibenion economaidd i Gomisiynydd Plant Cymru.

Dathlwyd gwaith y nifer cynyddol o eglwysi'r lleiafrifoedd ethnig gan Rwydwaith Cytûn. Siaradodd Jacob Jin Chul Park am ddatliadau Pasg Eglwys De Corea, yn enwedig eu cyngherddau yn Eglwys Bedyddwyr Albany, Caerdydd, ac Eglwys Priordy'r Santes Fair yn Y Fenni. Bu Cytûn yn cefnogi "Bible Fresh" a drefnwyd gan y Parchedig Irfan John o'r Eglwys Fethodistaidd, sydd wedi arloesi gyda sefydlu a maethu cynulleidfaoedd Wrddw eu hiaith.

Gwaith Ffydd a Threfn

Mae llawer o waith Rhian Linecar wedi canolbwyntio ar gefnogi datblygiadau allweddol yn ymwneud â gwaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cefnogi panel Litwrgi'r Comisiwn** – yn gweithio ar ddiwygio litwrgi'r Comisiwn ar gyfer y Cymun Bendigaid a diwygio rhestr 2005 o litwrgiau cytunedig o'r eglwysi a'r enwadau Cyfamodol eraill.
- **Cefnogi'r panel Episkope** – cychwyn ar y broses o edrych ar fodelau o arolygiaeth fugeiliol fel y gall y Comisiwn yn y pen draw, wedi myfyrio beiblaidd/diwinyddol, lunio dogfen a gytunwyd gan y bum eglwys sy'n aelodau, yn crynhoi eu dealltwriaeth o arolygiaeth fugeiliol ac yn datgan yn glir pa fodel fyddai'n dderbyniol i holl eglwysi'r Comisiwn.
- **Cefnogi panel Trefn Lywodraethol yr Eglwysi** – cychwyn ar y broses o archwilio model ar y cyd o drefn lywodraethol eglwysig, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y tebygrwydd rhwng y trefniadau enwadol ar hyn o bryd, fel y gall y Comisiwn, yn y pen draw, lunio dogfen a gytunwyd gan y bum eglwys sy'n aelodau, yn datgan yn glir pa drefn lywodraethol fyddai'n dderbyniol i bawb.
- **Cefnogi Grŵp yr Eiriolwyr wrth weithio** - ar ganfod meysydd ble y gellid sefydlu Partneriaeth Eciwmenaidd Leol, ar gychwyn trafodaethau gyda chynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hynny er mwyn egluro telerau'r cyfamod a hyrwyddo sefydlu Partneriaeth Eciwmenaidd Leol, a hefyd archwilio a oes yna gymunedau penodol a allai weithredu fel modelau arbrofol ar gyfer lleoli gweinidogaethau eciwmenaidd.

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Mae Cytûn wedi parhau i gefnogi gwaith partneriaid ac asiantaethau yn Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI).

Bu Rhian yn arbennig o weithgar ar **Grŵp Cyfeiriol Ffydd a Threfn CTBI**, yn paratoi dogfen ymateb Cymru i'r cwestiynau a osodwyd yng nghyfarfod diwethaf y grŵp. Cytunwyd y dylid gwneud ymchwil o fewn y cenhedloedd ar natur ymwneud eciwmenaidd yr eglwysi. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

1. Beth sy'n digwydd yn eciwmenaidd rhwng eglwysi?
2. Beth yw'r diddordebau o fewn ein heglwysi mewn perthynas â ffydd a threfn?
3. Pa dderbyniad sydd i'r gwaith o ddeialog eciwmenaidd yn ein heglwysi?
4. Yn ddiwylliannol, a yw eciwmeniaeth yn cael ei dal yn ôl neu'i hybu?

Bu Rhian hefyd yn bresennol yng **nghyfarfod preswyl awduron Wythnos Gweddi am Undod Cristnogol CTBI** a chwaraeodd ran bwysig wrth gynhyrchu'r brif Weithred o Addoliad ar gyfer 2012.

Bydd Cytûn yn parhau i arwain yn gryf wrth helpu Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol CTBI i ddatblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer ei waith yn y dyfodol. Bydd cryn dipyn o'r gwaith yma'n cael ei ddatblygu mewn cyfarfod o'r Rhwydwaith yng Nghaeredin ym mis Mai.

Cyfraniad Rhyngwladol



Mae Cytûn wedi ceisio gwneud cyfraniad yn rhyngwladol. Ar ran yr Eglwys yng Nghymru, bûm yn bresennol yn Ymgynghoriad Cymuned Porvoo ar Berthynas Ryng-ffydd yn Gothenburg. Y prif nod oedd diwygio Canllawiau 2003 ar gyfer Ymglyfarfod Rhyng-ffydd yn Eglwysi Cymuned Porvoo, sy'n gwasanaethu nifer o eglwysi Anglicanaidd a Lutheraidd Ewrop. Mae eglwysi Porvoo wedi cytuno i "rannu bywyd cyffredin mewn cenhadaeth a gwasanaeth" ac maen nhw'n cynnwys: Eglwysi Efyngylaidd-Lutheraidd Estonia, Lithwania, Sweden, Norwy, Gwlad yr Ia a'r Ffindir, a'r Eglwysi Anglicanaidd: Eglwysi Lloegr ac Iwerddon, yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Esgobol yr Alban. Mae dwy eglwys o dde Ewrop hefyd yn aelodau o Gymuned Porvoo, sef yr Eglwys Lwsitanaidd ym Mhortiwgal ac Eglwys Ddiwygiedig Esgobol Sbaen. Mae Canllawiau 2003 wedi helpu i lunio dull Cytûn o ymateb i alwadau gan yr eglwysi a'r enwadau sy'n aelodau i'w gwasanaethau wrth geisio hyrwyddo

dialog rhyng-grefyddol. Cafodd y ffordd y mae Cymru wedi ystyried materion ynghylch hawliau dynol broffil yn ystod y gynhadledd.

Tua diwedd mis Ebrill cyfarfu nifer o swyddogion o Gyngor Eciwmenaid Cenedlaethol yr Eglwysi yn Warsaw er mwyn trafod seciwlareiddio yn Ewrop ddeng mlynedd wedi cyhoeddi'r Charta Oecumenica. Mae'r Charta Oecumenica ("Siarter Eciwmenaid" yn Lladin) yn ddogfen ar y cyd o Gynhadledd yr Eglwysi Ewropeaidd (CEC) a Chyngor y Cynadleddau Esgobol Ewropeaidd (CCEE), sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer ehangu cydweithrediad ymhlith eglwysi Ewrop. Cafodd ei harwyddo gan lywyddion y CEC a'r CCEE ar 22 Ebrill 2001, ar achlysur y cyfarfod eciwmenaid Ewropeaidd yn Strasbwrg. Roedd cynnal y trafodaethau eleni mewn gwlad sydd o hyd yn Gatholig gan fwyaf, ac yn gymharol gref o ran ymrwymiad eglwysig, yn cynnig dirnadaeth werthfawr. Rhoddir ymateb yng nghyfarfod nesaf Grŵp Galluogi Cytûn ar sut y mae cyrff eciwmenaid ledled Ewrop wedi ystyried rhyddid crefyddol.

Gwaith y Dyfodol

Bydd Cynllun Gwaith drafft Cytûn yn cael ei adolygu gan y Grŵp Galluogi ar Fai 18fed 2011. Mae eglwysi wedi awgrymu rhai prosiectau mawrion, megis ailedrych ar *Cymru: Cymdeithas Foebol?* Sbardunwyd hyn yn rhannol gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r bilsen bore wedyn i ferched ifanc yn rhad ac am ddim.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn

Nodyn byr i'ch atgoffa y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn yn cael ei gynnal ar Dachwedd 1af 2011, o 11.30 a.m. yng Nghanolfan Gymuned Hope, Y Drenewydd, SY16 1JD.

Eisteddfod Genedlaethol

Nodwch fod angen i chi wneud cais drwy swyddfa Cytûn ar gyfer tocynnau am ddim i addoliad y Sul yn Eisteddfod Genedlaethol Wreccsam eleni, os nad ydych chi'n byw yn yr ardal. Byddwn yn cyhoeddi ffurflen gais ar ein gwefan yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd rhaid derbyn pob cais erbyn diwedd mis Mehefin, naill ai drwy lythyr i'r swyddfa, neu drwy'r wefan.

Pob Bendith,



Y Parchedig Aled Edwards OBE
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046
4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 |
Enw Cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae
Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071